



## Teitl Rôl Gwirfoddolwr: Gwirfoddolwr Cyfiawnder Troseddol

### Nod y rôl gwirfoddoli:

Gweithio yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid, grŵp o staff cyflogedig a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc (10-17 oed) i atal troseddu ac aildroseddu.

I ganfod mwy am ein gwaith gallwch ymweld â: <http://www.monmouthshire-torfaen-yos.org.uk/>

### Tasgau

1. Goruchwyllo a chefnogi pobl ifanc i wneud gweithgareddau yn eu cymuned i unioni'r niwed a achoswyd gan eu hymddygiad troseddol.
2. Gweithio gyda phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr i gytuno ar gontract gweithgareddau i fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol.
3. Gweithredu fel oedolyn priodol ar gyfer pobl ifanc mewn gorsaf heddlu i ddiogelu eu llesiant a'u hawliau.
4. Cofnodi a rhoi adborth ar yr holl wybodaeth berthnasol i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuencid.
5. Sicrhau y cydymffurfir â gweithdrefnau diogelu.

***DS Gall gwirfoddolwyr fynegi diddordeb yn y tasgau fyddai orau ganddynt.***

### Amser:

Ymrwymiad amser hyblyg yn cynnwys bod ar gael ar nosweithiau/penwythnosau.

### Man gwaith:

Cynhelir mwyafrif y gweithgareddau yng nghymunedau Sir Fynwy a Thorfaen.

Bydd angen teithio i Gasnewydd ac Ystrad Mynach ar gyfer dyletswyddau oedolyn priodol.

### Rheolwr Gwirfoddolwyr:

Karen McCorriston, Uwch Swyddog Gwneud Iawn.

## Anghenion cludiant:

Bydd gwirfoddolwyr angen mynediad i gar a defnydd busnes.

***D.S. Nid yw'r uchod yn weithredol os mai dim ond yn nhasg 2 y mae gwirfoddolwyr ddiddordeb ond bydd angen i wirfoddolwyr ddarparu eu cludiant eu hunain.***

## Sgiliau/nodweddion gofynnol

1. Diddordeb ac ymrwymiad i gefnogi adsefydlu plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sydd mewn risg o droseddu.
2. Gallu i ymgysylltu a chyfathrebu gyda phobl ifanc a all ddangos ymddygiad heriol.
3. Parodrwydd i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol awyr agored (dim ond yn berthnasol i dasg 1).
4. Gallu i ffurfio barn synnwyr cyffredin.
5. Gallu i gyfathrebu'n briodol gyda phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, aelodau'r gymuned, gweithwyr proffesiynol a darparwyr prosiect.
6. Byddai'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon.
7. Synnwyr digrifwch, hyblygrwydd ac aelod o dîm.

## Buddion a gynigir

1. Hyfforddiant sefydlu. Mae presenoldeb yn orfodol.
2. Hyfforddiant 'mewnol' ychwanegol ar amrywiaeth o bynciau.
3. Darperir offer.
4. Talir treuliau.
5. Sicrwydd yswiriant llawn.
6. Digwyddiadau cydnabod gwirfoddolwyr

	Tasg 1	Tasg 2	Tasg 3
Hyfforddiant Sylfaen (3 diwrnod)	✓	✓	✓
Hyfforddiant Materion Panel (2 ddiwrnod)		✓	
Hyfforddiant Sgiliau Adferol (3 diwrnod)		✓	

## Tystlythyrau:

Mae angen dau dystlythyr.

Bydd angen i wirfoddolwyr a fydd yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn sylweddol gyda phlant neu oedolion agored i niwed gynnal gwiriad DBS.